

Adroddiad i Bwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian

Hydref 2016

Eleni, gwelwyd gostyngiad pellach yn y mathau o droseddau gwahanol gaiff eu trin gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain ar Reilffordd Arfordir y Cambrian.

Bu lefel sylweddol is, ers Ebrill eleni, o gamddefnyddio croesfannau rheilffordd a adroddwyd ac o ganlyniad dim ond pump gyrrwr cerbyd gafodd eu dal am y troseddau hyn. O'r rhain, roedd pedwar am drosedd Gyrru Diofal, tri yng Nghroesfan Reilffordd Talwrn Bach yn Llanbedr. Roedd yn llall yng nghroesfan Morfa Harlech, ond ers i'r marciau ffordd wrth ddynesu at y groesfan gael eu hailbeintio yn gynharch yn yr haf ni chafwyd unrhyw adroddiad o gamddefnyddio.

Bu'r achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol hefyd yn is eleni. Cafwyd un digwyddiad ar ddiwedd Mawrth pan aeth grŵp o ddynion meddw iawn ar drên yn Abermaw i deithio i Bwllheli. Achosodd eu hymddygiad i ddau ohonynt gael eu gollwng o'r trên yn Llanbedr a dau arall ym Mhorthmadog. O ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad yma cafodd dau aelod o'r grŵp Rybuddion gan yr Heddlu am Droseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus. Mae dau arall yn aros i fynd i'r llys mewn perthynas â throseddau Gwedduswydd Cyhoeddus. Roedd y Tocynnwr oedd yn rhan o'r digwyddiad yma'n wedi cymryd ati yn arw oherwydd yr ymddygiad y bu'n rhaid iddi ddelio ag ef.

Roedd gŵr o ardal Telford yn aros i ymddangos yn y llys ar ddechrau Tachwedd wedi iddo ymosod ar aelod o'r tîm glanhau ar y trên ac roedd yn ddifriol yn eiriol i Docynnwr ym Machynlleth ym mis Awst.

Mae gŵr arall hefyd ar fechnïaeth yr heddlu ar hyn o bryd mewn cysylltiad ag amrywiaeth o droseddau a ddigwyddodd mewn sawl ardal o'r DU ac i honiad o drosedd yn erbyn tocynnwr ym Machynlleth. Mae ef yn cynorthwyo'r heddlu gan iddo geisio dianc o'r ardal.

Mae Heddlu TP yn gweithio'n agos gyda Trenau Arriva Cymru i ddarparu gwell patroliau gwasanaethau ar y trên ar hyd lein y Cambrian hyd at y Nadolig, pan fydd y trenau yn brysurach nag arfer gyda phobl yn dathlu ac yn mynd i bartïon.

Mae Heddlu TP yn dymuno sicrhau'r holl deithwyr a Chriw y Trên y byddwn yn ymdrin gyda digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar drenau a gorsafoedd mewn ffordd gref gan roi unrhyw droseddwyr o flaen y llys, os bydd angen.

Gellid cysylltu â Heddlu TP 24 awr y dydd ar Rhad-ffôn 0800-405040 neu ein gwasanaeth Tecst ar 61016.